AU Ymlaen
AdvanceHE

NATIONAL TEACHING FELLOWSHIP SCHEME

# Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol (CCAC) 2026

## Canllawiau ar gyfer sefydliadau ac unigolion

## Cynnwys


1. Dyddiad cau ac amserlen asesu 3

2. Cyflwyniad 4

2.1 Diweddariadau ar gyfer 2026 5

3. Canllawiau ar gyfer enwebu 5

3.1 Cymhwystra 5

3.2 Dogfennau enwebu 7

3.3 Gofynion fformatio 7

3.4 Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth 10

3.5 Cyflwyno a derbyn enwebiadau 10

4. Meini prawf dyfarnu CCAC 11

5. Datblygu'r Cais 11

5.1 Adran A: Datganiad Cyd-destun 11

5.2 Adran B: Cais yn erbyn tri maen prawf CCAC 13

5.3 Adran C: Rhestr Gyfeiriadau 17

6. Datganiad o Gefnogaeth 18

7. Y broses adolygu a dewis 19

8. Digwyddiadau cymorth Cymdeithas Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol 20

9. Canlyniadau a chyhoeddusrwydd 20

9.1 Gwybodaeth am Gyhoeddusrwydd a Ffotograffau 21

9.2 Adborth ysgrifenedig 22

10. Seremoni wobrwyo a digwyddiad briffio 22

Atodiad 1: Ffurflen Gais Enwebai CCAC 2026 23

Atodiad 2: Ffurflen Datganiad o Gefnogaeth 25

Atodiad 3: Cyfarwyddyd sgorio CCAC 2026 26

# 1. Dyddiad cau ac amserlen asesu

Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau a'r broses adolygu fel a ganlyn:

| Dyddiad | Carreg Filltir |
|---|---|
| Dydd Llun<br>6 Hydref 2025 | Galwad am enwebiadau yn agor<br>Bydd canllawiau ar gyfer sefydliadau ac unigolion CCAC 2026 ar gael ar wefan AU Ymlaen.<br>Bydd Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (AGRhA) mewn sefydliadau yn gallu cael mynediad i'r dogfennau enwebu a'u lawrlwytho o grŵp 'Rhwydwaith Cysylltu Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (AGRhA)' ar Cysylltu. |
| **Dydd Mercher<br>11 Mawrth 2026** | Enwebiadau yn cau<br>Rhaid i fanylion enwebeion a'r holl gopïau electronig o'r dogfennau enwebu gael eu lanlwytho gan yr AGRhA i blatfform ar-lein Survey Monkey Apply (SMA) AU Ymlaen erbyn **12:00 canol dydd (GMT).** Bydd mynediad i SMA yn cau i AGRhA y pryd hynny. |
| w/d 29 Mehefin | Enwebeion, AGRhA ac Is-Gangellorion yn cael gwybod y canlyniad<br>Caiff enwebeion ac AGRhA wybod y canlyniad. Rhoddir gwybod i Is-gangellorion/Prifathrawon/Llywyddion (neu rywun cyfatebol) sefydliadau enwebu yn unig am unrhyw enillwyr. Sylwch, mae'r wybodaeth hon dan embargo tan y cyhoeddiad swyddogol. |
| Dydd Iau<br>6 Awst 2026 | Cyhoeddiad swyddogol<br>AU Ymlaen yn cyhoeddi'r Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol 2026 newydd. |
| Erbyn diwedd Awst 2026 | Adborth enwebeion yn cael ei gyhoeddi<br>Bydd enwebeion yn cael adborth ysgrifenedig ar eu henwebiad; sylwch, ni fydd sgorau adolygwyr a graddau cyffredinol yn cael eu rhannu. Bydd AGRhA yn cael eu copïo i mewn i'r adborth. |
| Hydref 2026 | Seremoni Wobrwyo<br>Caiff y Seremoni Wobrwyo ei chynnal ar ddechrau hydref 2026 (dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau). |

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau manwl ar gyfer y broses enwebu a pharatoi a chyflwyno dogfennau enwebu ar gyfer gwobrau CCAC 2026. Dylai sefydliadau sydd am newid eu AGRhA, neu fanylion cysylltu eu AGRhA, ebostio'r tîm yn ntfs@advance-he.ac.uk.

# 2. Cyflwyniad

Pwrpas y Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol (CCAC) yw cydnabod, gwobrwyo a dathlu unigolion sy'n gweithio ym maes **addysg uwch (AU) yn y DU** ac sydd wedi cael effaith ragorol ar ganlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu.

Mae'r CCAC yn cael ei drefnu a'i redeg gan AU Ymlaen. Er mwyn cynnig staff ar gyfer y CCAC, rhaid i sefydliadau fod yn aelodau Llawn neu Ymgysylltiol o AU Ymlaen y DU; mae cymryd rhan yn y cynllun yn un o fuddion aelodaeth, h.y. ni chodir unrhyw ffi ychwanegol i gymryd rhan.

Gall sefydliadau sy'n aelod o AU Ymlaen y DU gyflwyno hyd at **dri aelod o staff sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu mewn addysg uwch.** Mae'r unigolion a ddewisir i gymryd rhan yn y CCAC yn cael eu galw'n **'enwebeion',** gan fod eu sefydliad wedi dewis eu cynnig am wobr trwy **'enwebiad'**.

Bydd dogfennau enwebu ar gael i'w lawrlwytho o'r grŵp preifat 'Rhwydwaith Cysylltu Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (AGRhA)' ar blatfform Cysylltu AU Ymlaen. Os ydych yn AGRhA ac nid oes gennych fynediad i'r grwp Rhwydwaith Cysylltu AGRhA, cysylltwch â'r Tîm Gwobrau. Mae AGRhA yn cyflwyno enwebiadau trwy blatfform ar-lein Survey Monkey Apply (SMA) AU Ymlaen.

Bydd hyd at 55 o wobrau unigol yn cael eu rhoi yn 2026 i gydnabod effaith ragorol. Bydd AU Ymlaen yn hyrwyddo gwaith yr holl enillwyr ac yn arddangos eu cyfraniad at ganlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu.

Caiff enwebeion wybod am ganlyniad eu henwebiad yn ystod yr wythnos yn dechrau 29 Mehefin 2026; mae'r wybodaeth hon dan embargo tan y cyhoeddiad swyddogol ar ddydd Iau 6 Awst 2026.

Caiff enwebeion llwyddiannus eu gwahodd i fynychu Seremoni Wobrwyo yn hydref 2026, lle y caiff eu Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol ei chyflwyno a'i dathlu.

Bydd Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol (CAC) newydd yn cael eu gwahodd i fod yn aelodau o Gymdeithas Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol (CCAC) a bod yn llysgennad ar gyfer y cynllun, cydweithio â CAC eraill a chefnogi gwelliant parhaus dysgu ac addysgu.

Mae rhagor o fanylion am y Cynllun a'r Gymdeithas Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol ar gael ar wefan AU Ymlaen. Bydd CAC hefyd yn gymwys i ddefnyddio'r llythrennau 'CAC' ôl-enwol ac yn cael bathodyn digidol.

Mae Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn chwarae rôl ganolog yn y broses. Mae'r Panel yn cynghori ar y meini prawf, y broses o asesu a chymedroli, a dewis yr enillwyr. Mae'r Panel yn annibynnol ar AU Ymlaen ac yn cynnwys uwch gynrychiolwyr AU o wledydd y DU a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

## 2.1 Diweddariadau ar gyfer 2026

+ Rhaid i enwebeion wahanu a nodi nifer y geiriau ar gyfer pob maen prawf o dan ddau bennawd ar wahân:
    - Geiriau wedi eu cynnwys yn y ffigurau
    - Geiriau wedi eu cynnwys ym mhrif gorff y testun

Mae'r terfyn nifer y geiriau cyffredinol yn parhau'n gymwys. Gweler Adran 3.3 am gyfarwyddiadau llawn.

+ Mae canllawiau newydd wedi cael eu hychwanegu ar ddefnyddio elfennau gweledol mewn Ceisiadau (Adran 3.3).
+ Bydd AGRhA yn gallu cael mynediad i'r dogfennau enwebu a'u lawrlwytho trwy'r grŵp preifat 'Rhwydwaith Cysylltu Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (AGRhA)' ar blatfform Cysylltu AU Ymlaen.
+ Gall y Datganiad o Gefnogaeth Sefydliadol gael ei ysgrifennu a'i gymeradwyo gan Gyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol yr enwebeion, fel y bo'n briodol (gweler 3.2).
+ Rhaid i enwebeion gynnwys penynnau gydag enw a sefydliad enwebu a throedynnau gyda rhifau tudalennau (gweler 3.3).
+ Mae nifer o fân ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i'r geiriad trwy'r dogfennau.

# 3. Canllawiau ar gyfer enwebu

## 3.1 Cymhwystra

Mae'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol (CCAC) yn agored i bob Darparwr Addysg Uwch (DAU) sy'n aelod o AU Ymlaen ar draws pedair gwlad y DU, gan gynnwys Colegau Addysg Bellach a darparwyr 'amgen' annibynnol. Gwahoddir pob sefydliad **i enwebu hyd at dri** aelod unigol o staff a all ddangos yn eglur eu bod yn cael effaith ragorol ar ganlyniadau myfyrwyr addysg uwch a/neu'r proffesiwn addysgu.

Wrth ddewis hyd at dri unigolyn i'w cyflwyno ar gyfer y cynllun, caiff sefydliadau eu hannog yn gryf i adlewyrchu amrywiaeth llawn eu corff staff.

Gall enwebeion fod ag **unrhyw rôl sy'n cyfrannu at wella canlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu,** h.y. mae staff proffesiynol sy'n cefnogi addysg AU hefyd yn gymwys i gael eu henwebu.

Gall staff gael eu henwebu ar unrhyw gam yn eu gyrfa a gallant gael eu cyflogi ar unrhyw fath o drefniadau cytundebol; er enghraifft, rhan-amser, amser llawn, sesiynol, heb fod yn barhaol (cyfnod sefydlog).

Rhaid i staff fod yn addysgu a/neu'n cefnogi dysgu myfyrwyr AU o fewn aelod-sefydliad, gan gynnwys er enghraifft addysgu, ymchwil a/neu gefnogi dysgu. Mae staff sy'n gweithio ar gampws dramor, tra eu bod wedi eu cyflogi gan DAU y DU sy'n aelod, yn gymwys i'w henwebu.

Ni chaniateir i unigolion wneud cais am y Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol (CCAC) a hefyd bod yn Arweinydd Tîm GCRhA neu'n Ddirprwy Arweinydd Tîm GCRhA yn yr un rownd wobrwyo.

Ni ellir enwebu AGRhA a Dirprwy AGRhA ar gyfer CCAC. Dylai AGRhA neu Ddirprwy AGRhA sy'n dymuno cael ei enwebu roi'r gorau i'w rôl fel AGRhA neu Ddirprwy AGRhA ar gyfer y cylch gwobrwyo perthnasol. Cysylltwch â ntfs@advance-he.ac.uk i roi gwybod am y newid a darparu manylion cysylltu ar gyfer AGRhA/Dirprwy AGRhA newydd. Bydd mynediad SMA yr AGRhA yn cael ei ailbennu ar yr adeg hon er mwyn atal unrhyw wrthdaro buddiannau.

Dylai'r Cais (gweler y diffiniad isod) fod yn waith yr enwebai yn unig. Mae AU Ymlaen yn cadw'r hawl i brosesu enwebiadau trwy feddalwedd atal llên-ladrata. Er y gallai fod yn briodol i ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, megis y rhai sy'n ymwneud â sillafu a gramadeg, i helpu'r enwebai i ddatblygu Cais, rhaid i'r cynnwys fod yn waith personol yr enwebai ei hun. Wrth wneud yr enwebiad, mae sefydliadau'n cadarnhau bod mesurau priodol wedi cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau unplygrwydd a dilysrwydd Cais yr enwebai.

Nod AU Ymlaen yw annog ymarferion cyflogaeth sy'n galluogi canlyniadau cyfartal wrth recriwtio, cadw staff a datblygu gyrfa o fewn y sector AU ar gyfer pob unigolyn. Mae AU Ymlaen yn disgwyl i sefydliadau sicrhau bod eu prosesau ar gyfer dewis enwebeion yn gynhwysol ac nid ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Yn ogystal, dylai prosesau dewis fod yn gynhwysol o ran yr amrywiaeth o ffyrdd y caiff staff sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu eu cyflogi yn y sefydliad.

Mae data yn dangos o fewn CCAC bod y **grwpiau canlynol heb gael eu cynrychioli'n ddigonol** yn flaenorol:

+ Yr amrywiaeth eang o **staff proffesiynol sy'n cefnogi addysg myfyrwyr AU** (dyma rai enghreifftiau: datblygwyr dysgu, technolegwyr dysgu, dylunwyr dysgu, cynghorwyr gyrfaoedd a chyflogadwyedd, staff llyfrgell, staff cymorth i fyfyrwyr, datblygwyr sgiliau academaidd, cynghorwyr academaidd, technegwyr, swyddogion lleoliadau, ac ati.)
+ Staff **rhan-amser, ffracsiynol, sesiynol neu sy'n cael eu talu fesul awr**.
+ **Grwpiau staff lleiafrifoedd ethnig** fel y bo'n berthnasol i ystadegau'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA);
+ **Staff AU sy'n gweithio o fewn y sector colegau a darparwyr amgen.**
+ **Gwrywod** fel y bo'n berthnasol i ystadegau HESA.

**Caiff sefydliadau eu hannog i ystyried sut y gall y broses ddewis fewnol gael ei defnyddio i greu proffil cadarnhaol ar gyfer yr enwebai(enwebeion) a ddewisir** a sut y byddant yn cefnogi enwebeion sy'n aflwyddiannus ym mhroses wobrwyo CCAC gan ei bod yn hynod gystadleuol.

## 3.2 Dogfennau enwebu

Mae **enwebiadau** yn cynnwys y dogfennau a'r ffurflenni a restrir isod. Rhaid i ddogfennau enwebu gael eu cwblhau a'u cyflwyno trwy SMA gan AGRhA y sefydliad (gweler Adran 3.5).

### Mae dogfennau enwebu a gwybodaeth am yr enwebai yn cynnwys y canlynol:

- **Gwybodaeth am yr enwebai:** Ar gyfer CCAC 2026, rhaid i AGRhA gasglu'r wybodaeth ganlynol gan bob enwebai a'i rhoi ar blatfform ar-lein SMA AU Ymlaen:
  - Enw a theitl yr enwebai
  - Teitl swydd yr enwebai, adran ac enw a chyfeiriad y sefydliad enwebu
  - Manylion cysylltu'r enwebai (gan gynnwys rhif ffôn y mae'r enwebai yn cydsynio i ni ei ddefnyddio i gysylltu ag ef/hi os yw'n llwyddiannus).
  - Maes(meysydd) arbenigol thematig a maes pwnc yr enwebai
- **Cais:** wedi ei gwblhau gan yr enwebai trwy ddefnyddio'r Ffurflen Gais wedi ei lawrlwytho gan yr AGRhA o grŵp preifat Rhwydwaith AGRhA ar Cysylltu. Mae enwebeion yn defnyddio'r Ffurflen Gais i ysgrifennu naratif yn erbyn y tri maen prawf (uchafswm o 1500 o eiriau fesul maen prawf) a darparu Datganiad Cyd-destun cyffredinol (hyd at 300 o eiriau) a Rhestr Gyfeiriadau (gweler Adran 5.3 am fanylion) ar gyfer y cyfeiriadau a ddefnyddir yn y Cais (heb ei gynnwys yn nifer y geiriau); gweler Atodiad 1. Mae fersiwn dwyieithog Cymraeg hefyd ar gael i'r AGRhA ei lawrlwytho. Rhaid i'r Ffurflen Gais wedi ei chwblhau gael ei chyflwyno gan yr AGRhA fel ffeil PDF.
- **Datganiad o Gefnogaeth wedi ei lofnodi**: datganiad (uchafswm o 1000 o eiriau) yn rhoi cymeradwyaeth a phersbectif sefydliadol i gefnogi Cais yr enwebai. Dylai'r datganiad hwn gael ei ysgrifennu gan gydweithiwr sydd mewn rôl uwch yn y sefydliad enwebu (ar lefel Dirprwy Is-ganghellor/Cyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol, neu rywun cyfatebol), sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r enwebai, gan ddefnyddio'r ffurflen a gafodd ei lawrlwytho gan yr AGRhA (gweler Atodiad 2). Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth Sefydliadol gael ei gymeradwyo gan Is-Ganghellor y sefydliad (neu rywun cyfatebol). Mae fersiwn dwyieithog Cymraeg hefyd ar gael i'r AGRhA ei lawrlwytho. Rhaid i'r Datganiad o Gefnogaeth wedi ei gwblhau gael ei gyflwyno gan yr AGRhA fel ffeil PDF.

### Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal

**Ar ôl** y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais, bydd tîm Gwobrau AU Ymlaen yn cysylltu â'r holl enwebeion a gofyn iddynt gwblhau **arolwg Monitro Cyfle Cyfartal ar-lein** (gweler Adran 3.4 isod). Caiff y data hwn ei ddefnyddio'n ddienw i adrodd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i Banel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU. Bydd URL yr arolwg yn cael ei ebostio'n uniongyrchol at enwebeion gan y Tîm Gwobrau unwaith y bydd yr enwebiadau wedi cau ar ddydd Mercher 11 Mawrth 2026.

## 3.3 Gofynion fformatio

Dylai'r confensiynau canlynol gael eu dilyn wrth gyflwyno'r Cais. Mae hyn i sicrhau tegwch a chysondeb yn y broses adolygu ar draws pob enwebai.

- **Terfyn Nifer y Geiriau:** Mae terfyn llym ar gyfer nifer y geiriau yn Adrannau A a B. Ni fydd adolygwyr yn ystyried unrhyw eiriau sy'n fwy na'r terfynau hyn.

  Rhaid i enwebeion ddarparu dadansoddiad o nifer y geiriau ar gyfer Adran B o dan ddau gategori ar wahân:

  1. Nifer y geiriau yn yr holl 'ffigurau', megis diagramau, graffiau a thablau – mae hyn yn cynnwys yr holl allweddau, penawdau, labeli echel, ac unrhyw destun arall o fewn yr elfennau gweledol.
  2. Nifer y geiriau ym mhrif gorff y testun, gan gynnwys yr holl benawdau adran, cyfeiriadau yn y testun, ôl-nodiadau, atalnodi a nodau rhifiadol.


  Ni all cyfanswm nifer y geiriau yn y ddau gategori fod yn fwy na therfyn cyfan nifer y geiriau.
- **Ffont:** Arial 12 pwynt.
- **Y Defnydd o Elfennau Gweledol**

  Mae diagramau, siartiau, graffiau, tablau a chynrychiolaethau sgematig arall **wedi eu caniatáu** a gellir eu defnyddio i gefnogi Cais yr enwebai. Dylid cyflwyno'r wybodaeth mewn ffurf strwythuredig neu gryno.

- **Mae enghreifftiau'n cynnwys:**
  - Tablau
  - Siartiau bar
  - Graffiau llinell
  - Siartiau cylch
  - Plotiau gwasgaredig
  - Siartiau llif
  - Diagramau proses
  - Diagramau Venn
  - Diagramau Fishbone (achos ac effaith)
  - Llinellau amser
  - Mapiau meddwl
  - Diagramau cysyniadol
  - Diagramau fframwaith
  - Matricsau (e.e. dadansoddiad SWOT)
  - Gridiau yn cymharu categorïau neu newidynnau

  Rhaid i'r holl destun o fewn yr elfennau hyn – megis labeli, penawdau, allweddau, a theitlau echel – gael eu cynnwys yn nifer y geiriau yn y 'ffigurau'.
- Fodd bynnag, mae elfennau gweledol heb fod yn sgematig **heb eu caniatáu** a bydd enwebiadau sy'n cynnwys y rhain yn cael eu dychwelyd.

  **Mae'r rhain yn cynnwys:**
  - Ffotograffau (e.e. delweddau o wrthrychau, pobl a digwyddiadau)
  - Darluniadau neu ddarluniau
  - Cipluniau
  - Logos neu eiconau
  - Testun wedi ei sganio
  - Delweddau addurniadol neu artistig
  - Ffeithluniau gydag elfennau heb fod yn sgematig (dylai'r enwebeion ddileu unrhyw elfennau sgematig a'u cyflwyno ar wahân). **Ni fyddai'r** elfen weledol isod, er enghraifft, yn cael ei ganiatáu:




- **Penynnau a throedynnau:** rhaid i enwebeion gynnwys penynnau gydag enw a sefydliad enwebu a throedynnau ar gyfer rhifau tudalennau.
- **Geirdaon:** dylai geirdaon gan fyfyrwyr gael eu credydu mewn ffordd sy'n darparu'r cyd-destun perthnasol am y dysgwr, tra'n ei gadw'n ddi-enw e.e., "Myfyriwr Israddedig" neu "Mynychwr Gweithdy Ôl-raddedig". Rhaid i eirdaon gan gydweithwyr neu randdeiliaid eraill gynnwys eu henw gyda chydsyniad neu fod yn ddi-enw os yw'n fwy priodol.
- **Cyfeiriadau:** gellir eu cynnwys yng nghorff y testun neu eu rhoi fel ôl-nodiadau (yn hytrach na throedynnau) ar gyfer pob adran. Dylai'r rhain gael eu hychwanegu at nifer y geiriau terfynol.
- **Hyperddolenni:** peidiwch â chynnwys hyperddolenni gan eu bod yn ychwanegu gwybodaeth ychwanegol y tu allan i derfyn nifer y geiriau. Bydd AU Ymlaen yn dychwelyd Ceisiadau sy'n cynnwys hyperddolenni. Caniateir cyfeiriadau rhyngrwyd yn y Rhestr Gyfeiriadau i ddynodi ffynonellau ar-lein, ond cyfarwyddir adolygwyr i beidio a'u dilyn.
- **Cadw ffeiliau:** Dylai'r confensiwn enwi canlynol gael ei ddefnyddio ar gyfer pob ffeil a gyflwynir: <Initial.Surname_Institution_DocumentName> (e.e. J.Bloggs_UniofPoppleton_Claim).
- **Dylai AGRhA nodi pan fydd ffeiliau'n cael eu cyflwyno trwy SMA, mae'r system yn cynhyrchu rhestr o lythrennau a rhifau y mae'n ei hychwanegu at enw'r ffeil fel dynodydd unigryw. Ni fydd hyn yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y modd y caiff y ffeiliau a gyflwynir eu prosesu.**

**Mae AU Ymlaen a Phanel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw enwebiadau sydd heb fodloni'r gofynion hyn. Felly cyfrifoldeb y sefydliad enwebu a'r enwebai unigol yw sicrhau bod yr enwebiad yn bodloni'r gofynion o ran fformatio, llofnodion gofynnol a nifer y geiriau.**

## 3.4 Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth

Caiff yr holl ddata personol a ddarperir trwy gyflwyno enwebiad ar gyfer CCAC ei gadw'n gyfrinachol gan AU Ymlaen a chaiff dogfennau perthnasol yn unig eu rhannu â'r adolygwyr a Phanel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU fel yr esbonnir o fewn y ddogfen ganllaw hon.

Mae AU Ymlaen wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn casglu data ar enwebeion ar gyfer monitro ystadegol trwy'r Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal. Nid yw'r wybodaeth a ddarperir yn ffurfio rhan o'r Cais ac nid yw ar gael i'r adolygwyr, ond fe'i defnyddir yn ddienw gan AU Ymlaen ar gyfer monitro ystadegol.

Mae cyfrinachedd data'r enwebeion yn cael ei gynnal gan AU Ymlaen. Mae AU Ymlaen yn casglu'r wybodaeth a ddarperir gan bob enwebai ac yn defnyddio'r data a gesglir yn ddienw i adrodd yn flynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i Banel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU.

Mae Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal yn arolwg ar-lein y dylai'r enwebai ac nid yr AGRhA ei gwblhau. Bydd y Tîm Gwobrau yn cyfathrebu'n uniongyrchol ag enwebeion ynghylch cwblhau'r arolwg hwn (gweler Adran 3.2 uchod).

I gael gwybodaeth am y modd y mae AU Ymlaen yn casglu, storio a defnyddio gwybodaeth bersonol am enwebeion CCAC, cyfeiriwch at ein **datganiad preifatrwydd**.

## 3.5 Cyflwyno a derbyn enwebiadau

**Rhaid i ddogfennau enwebu gael eu cyflwyno gan AGRhA y sefydliad** trwy blatfform ar-lein SMA. Rhaid i AGRhA greu cyfrif ar SMA er mwyn iddynt allu lanlwytho'r enwebiad(au). Rhoddir cyfarwyddiadau llawn yn Llawlyfr AGRhA a Chanllaw Defnyddwyr SMA 2026.

**Rhaid i'r holl ddogfennau enwebu gael eu lanlwytho erbyn 12:00 canol dydd (GMT) ddydd Mercher 11 Mawrth 2026.** Os yw'r sefydliad yn enwebu mwy nag un unigolyn, bydd angen i'r AGRhA lanlwytho'r dogfennau enwebu ar gyfer pob un o'r enwebeion ar SMA; felly mae'n hollbwysig bod y confensiwn enwi ffeil cywir yn cael ei fabwysiadu (Adran 3.3).

Mae'r AGRhA yn gweithredu ar ran ei sefydliad, a bydd AU Ymlaen yn cymryd ei fod yn gweithredu yn unol â disgwyliadau ei uwch reolwyr wrth gyflwyno enwebiad(au) ei sefydliad.

Dylid cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg; rhaid i'r rhai sy'n cyflwyno cais yn Gymraeg gynnwys fersiwn Saesneg o bob dogfen enwebu hefyd at ddibenion adolygu.

Caiff enwebiadau sydd wedi eu lanlwytho a dderbynnir eu cydnabod trwy ebost awtomatig sy'n cael ei anfon at yr AGRhA o system SMA. Sylwch, ni fydd y system SMA ar-lein yn caniatáu i enwebiadau anghyflawn gael eu cyflwyno. Ar ôl cyflwyno'r Cais, bydd AU Ymlaen yn cadarnhau bod yr holl ddogfennau wedi cael eu derbyn ac mae modd eu cyrchu trwy ebost sy'n cael ei anfon at AGRhA y sefydliad o'r blwch post ntfs@advance-he.ac.uk cyn gynted â phosibl, ac erbyn **17:00 ar ddydd Gwener 13 Mawrth 2026**. Os nad yw'r AGRhA wedi cael y cadarnhad hwn gan AU Ymlaen erbyn y

dyddiad hwnnw, cynghorwn ei fod yn cysylltu ag AU Ymlaen yn ntfs@advance-he.ac.uk i gadarnhau bod y ddogfen wedi cael ei derbyn cyn y dyddiad cau terfynol sef **17:00 ddydd Llun 16 Mawrth 2026**.

# 4. Meini prawf dyfarnu CCAC

Caiff pob Cais enwebai ei asesu ar sail y dystiolaeth a ddarperir mewn perthynas â phob un o dri maen prawf CCAC:

> **Maen Prawf 1 CCAC: Rhagoriaeth unigol**
> Tystiolaeth o wella a thrawsffurfio canlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan ddangos effaith sy'n gymesur â chyd-destun yr unigolyn a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig.
>
> **Maen Prawf 2 CCAC: Codi proffil rhagoriaeth**
> Tystiolaeth o gefnogi cydweithwyr a dylanwadu ar gefnogaeth ar gyfer dysgu myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan gynnwys dangos effaith ac ymgysylltiad y tu hwnt i rôl academaidd neu broffesiynol arferol yr enwebai.
>
> **Maen Prawf 3 CCAC: Datblygu rhagoriaeth**
> Dangos ymrwymiad yr enwebai at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'i effaith o ran addysgu a dysgu a/neu gefnogi dysgu.

Bydd adolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o **werth**, **cyrhaeddiad** ac **effaith,** sydd i'w gweld o fewn y naratif a gyflwynir yn Adran B y ddogfen Cais. Sylwch, mae pob un o'r tri maen prawf uchod yn cael ystyriaeth gyfartal yn y broses asesu a phwysiad cyfartal yn y sgôr gyffredinol.

# 5. Datblygu'r Cais

Mae tair adran i 'Gais' yr enwebai:

- **Adran A:** Datganiad Cyd-destun (uchafswm o 300 gair).
- **Adran B:** Cais yn erbyn Meini Prawf Dyfarnu CCAC (uchafswm o 1500 o eiriau yn erbyn pob maen prawf).
- **Adran C:** Rhestr Gyfeiriadau.

Dim ond Adran B, sy'n cynnwys tystiolaeth yn erbyn pob un o dri maen prawf CCAC, sy'n cael ei sgorio gan yr adolygwyr; nid yw'r Datganiad Cyd-destun a'r Rhestr Gyfeiriadau yn cael eu sgorio.

## 5.1 Adran A: Datganiad Cyd-destun

Mae AU Ymlaen a Phanel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn cydnabod bod rhagoriaeth mewn addysgu a chefnogi dysgu yn cael ei lunio gan gyd-destunau academaidd, proffesiynol a sefydliadol penodol. Bydd adolygwyr yn ystyried natur y lleoliad sefydliadol a chyfle'r enwebai i gyfrannu ynddo.

*Mae'r Datganiad Cyd-destun yn chwarae rhan hanfodol yn y broses adolygu. Mae'n galluogi adolygwyr i ddeall rôl ac amgylchedd gwaith yr enwebai ac yn darparu cefndir hanfodol ar gyfer dehongli'r dystiolaeth a gyflwynir yn y Cais.*

Mae'r cynllun yn gwerthfawrogi effaith ac ymgysylltiad sy'n ymestyn y tu hwnt i gyfrifoldebau academaidd neu broffesiynol uniongyrchol enwebai. Er enghraifft, efallai fod enwebai wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddysgu ac addysgu ym maes addysg uwch trwy waith sydd y tu allan i'w rôl graidd (yn arbennig o berthnasol ar gyfer Maen Prawf 2).

O ystyried amrywiaeth yr enwebeion, o ran profiad, rolau swydd, a lleoliadau sefydliadol, bydd amrywiaeth fawr ar draws ceisiadau. Mae'r Datganiad Cyd-destun 300 o eiriau yn ymddangos ar ddechrau'r Cais ac nid yw'n cael ei sgorio. Yn hytrach, mae'n fframio Adran B ac yn helpu adolygwyr i ymgyfarwyddo â chyd-destun yr enwebai wrth ystyried y dystiolaeth yn erbyn pob maen prawf dyfarnu.

Mae Datganiad Cyd-destun wedi'i lunio'n dda yn cynnig modd i adolygwyr – a all ddod o leoliadau gwahanol iawn – ddeall nid yn unig rôl yr enwebai ond hefyd sut mae ei waith yn sefyll allan o fewn y cyd-destun hwnnw. Dylai osod y dystiolaeth yn glir yn Adran B ond ni ddylai gynnwys gwybodaeth sy'n ceisio dangos effaith neu wasanaethu fel tystiolaeth ychwanegol.

Mae gan enwebeion hyblygrwydd o ran y ffordd y maent yn strwythuro eu Datganiad Cyd-destun a dylent ddefnyddio'r cyfle hwn i dynnu sylw at agweddau ar eu cyd-destun sy'n fwyaf perthnasol i'w Cais. Fodd bynnag, dylent osgoi disgrifiadau hir o hanes neu enw da eu sefydliad.

**Gan fod terfyn llym o 300 o eiriau, rhaid i'r cynnwys fod yn gryno.** Rhoddir canllawiau ar yr hyn i'w gynnwys, a'r hyn i'w osgoi, isod.

**Beth i'w gynnwys –** mae esbonio eich cyd-destun yn amlwg yn helpu adolygwyr i ddeall eich Cais (efallai eu bod yn dod o gyd-destunau gwahanol iawn i'ch un chi), ond gall hefyd eu helpu i weld sut mae eich gwaith chi yn sefyll allan mewn sefyllfa arbennig. Gallech chi ystyried cynnwys gwybodaeth megis:

- Gwybodaeth am eich sefydliad sy'n cynnig modd i adolygwyr ddeall y math o amgylchedd AU rydych yn gweithio ynddo, a'r corff dysgwyr sy'n berthnasol i'ch gwaith.
- Gwybodaeth am y dysgwyr rydych yn eu trafod ym Maen Prawf 1 – pwy yw'r dysgwyr y mae eu canlyniadau'n cael eu trawsnewid? Beth ydych chi'n ei addysgu os ydych yn addysgu? Os ydych chi mewn rôl broffesiynol, pwy yw'r dysgwyr rydych chi'n eu cefnogi, neu'r staff rydych chi'n eu harwain? Os ydych, o dan Faen Prawf 1, yn dangos tystiolaeth o effaith ar y proffesiwn addysgu, bydd yn ddefnyddiol esbonio yn y Datganiad Cyd-destun pwy yw'r cydweithwyr rydych yn dylanwadu arnynt, neu pa agwedd ar y proffesiwn AU rydych yn ei thrafod.
- Gwybodaeth am eich disgyblaeth, maes, maes arbenigol a/neu faes proffesiynol fel y bo'n berthnasol i'r dystiolaeth y byddwch yn ei darparu o dan y tri maen prawf.
- Gwybodaeth am eich rôl broffesiynol a/neu academaidd benodol – i egluro'r cyd-destun ar gyfer Maen Prawf 1 (cyfleoedd a gynigir ganddo) ac er mwyn gallu dangos effaith ac ymgysylltiad y tu hwnt i'ch rôl ym Maen Prawf 2.

Dylech gynnwys dyddiadau lle bo'n berthnasol i helpu adolygwyr i ddeall eich cyd-destun a'ch effaith dros amser.

- Gwybodaeth sy'n rhoi'r cyd-destun ar gyfer unrhyw weithgarwch ehangach rydych yn ymwneud ag ef rydych efallai yn ei gynnwys o dan Faen Prawf 2, e.e. cyrff sector, diwydiant. Cofiwch, pan fyddwch yn trafod y gweithgarwch a thystiolaeth o werth, cyrhaeddiad ac effaith ym Maen Prawf 2, mae'n bwysig dangos sut mae'n codi proffil rhagoriaeth ym maes **addysgu a dysgu AU**. Efallai y byddwch yn gallu egluro'r cyd-destun ar gyfer hyn yma.
- Os ydych yn tynnu ar dystiolaeth o fwy nag un rôl neu sefydliad, dylech gynnwys gwybodaeth gryno am yr holl rolau a sefydliadau sy'n berthnasol i'ch Cais – dylech gynnwys dyddiadau perthnasol neu linell amser i helpu adolygwyr i ddeall eich cofnod.
- Unrhyw wybodaeth arall am agweddau penodol ar eich sefyllfa a allai fod yn ffactor sy'n llywio'r dystiolaeth a ddarperir gennych, er enghraifft os ydych yn rhan-amser, neu os ydych wedi cymryd saib o'r gwaith, neu os oes gennych unrhyw gyfyngiadau o ran cael mynediad i, er enghraifft, gyfleoedd DPP.

Sylwch dylai'r Datganiad Cyd-destun gael ei **ysgrifennu yn y person cyntaf** (defnyddiwch 'Rwyf') – eich Cais **chi** yw hwn a'ch cyd-destun **chi**.

**Yr hyn na ddylid ei gynnwys** yn eich Datganiad Cyd-destun (mae'n well ei ddefnyddio yn Adran B):

- Eich athroniaeth o ran dysgu ac addysgu – os yw hyn yn berthnasol i'ch Cais, mae'n fwy addas i'w gynnwys ym Maen Prawf 1, neu efallai Maen Prawf 3. Os yw rhyw elfen o hyn yn darparu cyd-destun ar gyfer gweddill eich Cais, gallwch ystyried cynnwys cyfeiriad byr ato yn y Datganiad Cyd-destun, ond os yw'n rhoi tystiolaeth o ryw agwedd ar eich Cais (h.y. gwerth, cyrhaeddiad neu effaith: eich rhagoriaeth unigol; sut rydych yn codi proffil rhagoriaeth; neu sut rydych yn datblygu rhagoriaeth drwy eich DPP), yna mae angen ei roi o dan y maen prawf perthnasol, nid yn y Datganiad Cyd-destun.
- Eich gwobrau, cyflawniadau, canlyniadau, cyhoeddiadau – mae'n well cynnwys y rhain o dan un (neu ragor) o feini prawf CCAC (lle bynnag y maent yn darparu'r dystiolaeth fwyaf defnyddiol).
- Enghreifftiau o'ch ymarfer a gwybodaeth am fentrau addysgu a dysgu penodol rydych wedi eu cyflwyno – mae'n well eu cynnwys o dan Faen Prawf 1.
- Gwaith sy'n effeithio ar gyrff proffesiynol neu gymunedau AU ehangach – mae'n well cynnwys y rhain ym Maen Prawf 2.
- Cymwysterau proffesiynol a/neu ymgysylltiad â gweithgareddau dysgu proffesiynol parhaus (ffurfiol neu anffurfiol) – mae'n well eu cynnwys ym Maen Prawf 3.

## 5.2 Adran B: Cais yn erbyn tri maen prawf CCAC

Dylai enwebeion ddefnyddio Adran B y Cais i amlinellu'r dystiolaeth ar gyfer **gwerth, cyrhaeddiad ac effaith** eu hymarfer yn erbyn y tri maen prawf yn eu tro. Ni all pob un o dair rhan Adran B fod yn fwy na 1500 o eiriau (gan gynnwys testun mewn diagramau, siartiau, tablau ac ati).

Mae adolygwyr yn 'sgorio' pob un o dair rhan Adran B ar wahân. Mae Atodiad 3 yn amlinellu'r cyfarwyddyd sgorio a ddefnyddir gan yr adolygwyr i roi sgorau ar gyfer y dystiolaeth a nodir yn erbyn pob un o'r tri maen prawf.

Ceir sawl ffordd wahanol o gyflwyno tystiolaeth ar gyfer pob un o'r tri maen prawf, fel y bo'n briodol yn ôl natur ymarfer addysg uwch yr enwebai. Rhoddir rhai enghreifftiau isod (Tabl 1), ond ni ddylai enwebeion deimlo eu bod wedi eu cyfyngu gan yr enghreifftiau hyn oherwydd maent wedi eu cynnwys i ddarparu mathau dangosol o dystiolaeth yn unig yn erbyn pob maen prawf.

**Pwyntiau allweddol:**

+ dylai enwebeion roi sylw i bob maen prawf a gwneud hawliad penodol yn erbyn pob maen prawf yn ei dro.
+ dylai enwebeion ddangos yr effaith ar ganlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu AU dros gyfnod parhaus.
+ bydd rhaid i enwebeion ddefnyddio tystiolaeth benodol o effaith i gefnogi eu cais yn erbyn pob maen prawf.
+ er enghraifft, gallai enghreifftiau o ffynonellau posibl o dystiolaeth gynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i) rhai o'r enghreifftiau canlynol yn dibynnu ar gyd-destun yr enwebai:
    - adborth a gwerthusiadau myfyrwyr;
    - data myfyrwyr (dilyniant, cyflawniad, cadw, ymgysylltu ac ati)
    - adborth/data o waith gyda chyfoedion, mentrau newydd/mentrau mewn lleoliadau newydd, datblygu polisi ac ati.
    - y defnydd o adnoddau, dulliau, cyhoeddiadau yr enwebai ac ati.
    - gweithio gyda phartneriaid/sefydliadau allanol, cyrff proffesiynol eraill, ac ati, mewn perthynas ag ymarfer AU.
    - cyflawniadau a gydnabuwyd megis gwobrau, achrediadau, llwyddiannau o ran cael cyllid, partneriaethau allanol, ac ati, wedi'u cysylltu â'r gweithgarwch y rhoddwyd y marcwyr cydnabod hyn ar eu cyfer.
    - data meintiol i ddangos graddfa, cyrhaeddiad ac effaith gwaith yr enwebai.
+ wrth ddewis tystiolaeth briodol, dylai enwebeion ystyried:
    - defnyddio tystiolaeth ystyrlon ac argyhoeddiadol i gefnogi'r Cais, canolbwyntio ar ffynonellau o safon ac nid maint ffynonellau gwahanol.
    - cydbwyso'r mathau o dystiolaeth; er enghraifft, cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol lle y bo'n briodol yn ôl cyd-destun yr enwebai. Er ei fod yn ffynhonnell ddefnyddiol i'w chynnwys, argymhellir osgoi gorddibynnu ar eirdaon.
    - cydbwysedd o dystiolaeth ar draws y tri maen prawf.

  - cydbwysedd rhwng tystiolaeth i ddangos ei bod yn gyfredol, a bod ymarfer wedi ei gynnal.
  - defnydd o dystiolaeth sy'n dangos natur gynhwysol eu hymarfer.
  - cynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu yng nghyd-destun addysg uwch yn unig (yn hytrach nag, er enghraifft, addysgu a dysgu mewn cyd-destun cynradd neu uwchradd, neu o fewn gweithgarwch proffil proffesiynol nad yw'n dangos perthnasedd priodol i ddysgu AU).
- Wrth ysgrifennu'r cais, dylai enwebeion ystyried sut mae eu harddull ysgrifennu a fframio'r Cais yn cynrychioli orau rhagoriaeth eu hymarfer ar gyfer ystod amrywiol o ddarllenwyr.

Y sefydliad enwebu a'r enwebai sy'n penderfynu'r hyn a ystyrir yn dystiolaeth briodol o effaith, ond caiff enwebeion eu hannog i sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei glywed o fewn Adran B y Cais.

Wrth gwrs, bydd enwebeion sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o fewn ystod eang o gyd-destunau sy'n cael ei ystyried yn addysg uwch yn y DU yn arddangos arddulliau cyfathrebu a dadansoddol gwahanol, a chaiff hyn ei ystyried yn y broses asesu. Bydd Ceisiadau'n amrywio'n sylweddol o ran arddull a chyd-destun; nid oes unrhyw arddull neu 'fformiwla' disgwyliedig i'w ddilyn.

**Gwerth, Cyrhaeddiad ac Effaith**

Bydd adolygwyr am weld tystiolaeth sy'n arddangos **gwerth, cyrhaeddiad ac effaith** ymarfer yr enwebai. Dylai enwebeion gadw'r gofyniad hwn mewn cof a cheisio darparu tystiolaeth sy'n dangos cydbwysedd o'r tair nodwedd yma ar draws y Cais.

**Gwerth:** Y budd a gaiff myfyrwyr a staff (a all fod mewn ffurfiau gwahanol). Gall gwerth gynnwys tystiolaeth ansoddol megis newid mewn ymagwedd at ddysgu ymysg myfyrwyr neu staff. Er enghraifft, gellir darparu tystiolaeth ynghylch sut y mae'r gwaith a ddisgrifir wedi ychwanegu gwerth at brofiad dysgu'r myfyrwyr neu at ymarfer addysgu. Gall gwerth ymwneud ag ansawdd profiadau gwell ac ymarfer ystyrlon. Gall rhai enwebeion fod yn gweithio mewn lleoliadau lle y ceir elfennau moesegol penodol cadarnhaol i'w hymarfer hefyd.

**Cyrhaeddiad:** Graddfa'r dylanwad. Er y gall cyrhaeddiad 'daearyddol' fod yn bwysig ar gyfer rhai enwebeion, mae'n ddefnyddiol ystyried ffyrdd eraill y gall enwebai ddangos cyrhaeddiad. Gall rhai enwebeion ddangos cyrhaeddiad ar lefel adran, cyfadran, sefydliad, cenedlaethol a/neu fyd-eang er enghraifft, ond gallai eraill ddarparu tystiolaeth o sut mae eu hymarfer wedi cyrraedd grwpiau gwahanol o fyfyrwyr, unigolion, timau staff a/neu sefydliadau (e.e. ôl-raddedigion, myfyrwyr cymudo, myfyrwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol, dysgwyr ar-lein ac ati).

**Effaith:** Y gwahaniaeth sydd wedi cael ei wneud i bolisi, ymarfer a/neu ganlyniadau myfyrwyr yng nghyd-destun AU o ganlyniad i weithgaredd. Y ffocws yma yw ar dystiolaeth benodol i ddangos bod newid cadarnhaol yn digwydd. Gall tystiolaeth o effaith fod yn

feintiol ac yn ansoddol, ond mae'n bwysig dangos sut y mae'r gweithgareddau a ddisgrifir wedi newid ymarfer addysgu AU a/neu ganlyniadau dysgu.

**Bodloni Maen Prawf 1: Rhagoriaeth unigol**

*Tystiolaeth o wella a thrawsffurfio canlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan ddangos effaith sy'n gymesur â chyd-destun yr unigolyn a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig.*

I roi rhai enghreifftiau, gallai Maen Prawf 1 gael ei ddangos trwy ddarparu tystiolaeth o effaith:

- ysgogi chwilfrydedd a diddordeb myfyrwyr mewn ffyrdd sy'n ysbrydoli ymrwymiad at ddysgu.
- trefnu a chyflwyno adnoddau o safon uchel mewn ffyrdd hygyrch, cydlynol a chreadigol, sydd yn ei dro yn amlwg yn gwella addysg myfyrwyr.
- cydnabod a chefnogi amrywiaeth lawn gofynion addysg myfyrwyr.
- defnyddio canlyniadau ymchwil, ysgoloriaeth ac ymarfer proffesiynol perthnasol mewn ffyrdd sy'n ychwanegu gwerth at addysgu ac addysg myfyrwyr.
- ymgysylltu â llenyddiaeth sefydledig a chyfrannu ato neu at sylfaen dystiolaeth yr enwebai ei hun ar gyfer addysgu a dysgu.

**Bodloni Maen Prawf 2: Codi proffil rhagoriaeth**

*Tystiolaeth o gefnogi cydweithwyr a dylanwadu ar gefnogaeth ar gyfer dysgu myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan gynnwys dangos effaith ac ymgysylltiad y tu hwnt i rôl academaidd neu broffesiynol arferol yr enwebai.*

Wrth roi sylw i Faen Prawf 2, dylai enwebeion ganolbwyntio ar eu dylanwad ar eraill, gan gynnwys sut y maent wedi dylanwadu ar gydweithwyr a/neu bolisi yn eu sefydliad neu'r tu hwnt. **Sylwch, dylid cynnwys gwaith y mae'r enwebai wedi ei wneud i gefnogi DPP cydweithiwr yma, nid o dan Faen Prawf 3.**

I roi rhai enghreifftiau, gallai Maen Prawf 2 gael ei ddangos trwy ddarparu tystiolaeth o effaith:

- gwneud cyfraniadau rhagorol at ddatblygiad proffesiynol cydweithwyr mewn perthynas â hyrwyddo a gwella addysg myfyrwyr AU mewn cyd-destun AU.
- cyfrannu at fentrau adrannol, cyfadrannol, sefydliadol a/neu genedlaethol i hwyluso addysg myfyrwyr mewn cyd-destun AU.
- cyfrannu at newid ystyrlon a chadarnhaol a/neu ei gefnogi mewn perthynas ag ymarfer, polisi a/neu weithdrefnau pedagogaidd mewn cyd-destun AU.

Sylwch: dylai tystiolaeth ar gyfer Maen Prawf 2 (fel yn achos pob maen prawf) gyfeirio'n benodol at addysgu a dysgu AU, felly os yw unrhyw weithgarwch y tu allan i AU yn cael ei drafod, mae angen dangos yn glir sut y mae'n codi proffil rhagoriaeth ym maes addysgu a dysgu AU.

**Bodloni Maen Prawf 3: Datblygu rhagoriaeth**

*Dangos ymrwymiad yr enwebai at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'i effaith o ran addysgu a dysgu a/neu gefnogi dysgu.*

Wrth roi sylw i Faen Prawf 3, dylai enwebeion ganolbwyntio ar eu datblygiad proffesiynol **nhw** a'i effaith arnyn nhw, ac nid ar y cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol y maent wedi eu sefydlu ar gyfer eraill (a fyddai'n fwy perthnasol o dan Faen Prawf 2).

Wrth ddangos tystiolaeth o effaith datblygiad proffesiynol parhaus yr enwebai o dan Faen Prawf 3, gall yr enwebai gynnwys tystiolaeth o sut y mae wedi defnyddio ei DPP i wella ei ymarfer a chefnogi addysg myfyrwyr. Ni ddylai enwebeion gynnwys gwybodaeth am eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol o dan Faen Prawf 3, gan nad yw hyn yn ofyniad y Maen Prawf ac ni ellir ei werthuso o ran cyrhaeddiad, gwerth ac effaith.

I roi rhai enghreifftiau, gallai Maen Prawf 3 gael ei ddangos trwy ddarparu tystiolaeth o effaith:

- adolygu a gwella ymarfer proffesiynol enwebai unigol yn barhaus;
- ymgysylltu â gweithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n gwella arbenigedd yr enwebai ym maes cefnogi addysg a dysgu.
- cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â'r ymarferion effeithiol a ddisgrifir ym Maen Prawf 1 neu 2.
- dangos sut mae cyfraniadau penodol sy'n deillio o ddatblygiad proffesiynol yr enwebai wedi galluogi gwelliannau sylweddol mewn ymarfer addysgu, canlyniadau a/neu brofiad myfyrwyr.

## 5.3 Adran C: Rhestr Gyfeiriadau

Mae'r Cais yn cynnwys adran olaf (Adran C) lle y dylai enwebeion ddarparu rhestr o gyfeiriadau y maent wedi eu defnyddio o fewn y dystiolaeth a ddarparant yn erbyn pob maen prawf. Er enghraifft, efallai fod enwebeion yn defnyddio canlyniadau ymchwil perthnasol, ysgoloriaeth ac ymarfer proffesiynol a/neu ymgysylltu â llenyddiaeth sefydledig a chyfrannu ati neu at sylfaen dystiolaeth yr enwebai ei hun ar gyfer addysgu a dysgu.

**Ni ddylai** enwebeion restru eu holl gyhoeddiadau a chyflwyniadau yn unig ond yn hytrach dylent ganolbwyntio ar y rhai sydd wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â'r deunyddiau yn Adran B. Dylai enwebeion hefyd fod yn ymwybodol na all y Rhestr Cyfeiriadau gael ei defnyddio i ychwanegu hyperddolenni i hyrwyddo deunyddiau ategol pellach (cyfeiriwch at Adran 3.3 uchod).

Er nad oes terfyn nifer y geiriau ar gyfer y Rhestr Gyfeiriadau, mae dadansoddiad o enwebiadau llwyddiannus blaenorol yn awgrymu bod rhestr gyda llai na 2 neu fwy nag 20 o gyfeiriadau yn debygol o fod yn anghyson â cheisiadau llwyddiannus. Dylai'r Rhestr Gyfeiriadau **gynnwys cyfeiriadau y cyfeirir atynt yn uniongyrchol yn unig** o fewn y dystiolaeth a ddarperir yn Adran B y Cais.

Nid yw'r Rhestr Gyfeiriadau yn rhan o'r broses adolygu ac felly ni chaiff ei 'sgorio' gan yr adolygwyr. Pwrpas y rhestr yw cynnig modd i adolygwyr nodi ffynonellau a rhoi credyd priodol i awdur sydd wedi ysbrydoli unrhyw feysydd ymarfer yr enwebai sydd wedi cael eu cynnwys fel tystiolaeth yn y Cais.

# 6. Datganiad o Gefnogaeth

Mae'r datganiad o gefnogaeth yn elfen bwysig o'r Cais. Mae'n darparu cadarnhad o arwyddocâd gwaith yr enwebai i'r sefydliad ac yn cael ei ystyried gan adolygwyr fel cymeradwyaeth o gofnod yr enwebai. Mae'n cymeradwyo'r Cais a wnaed gan yr enwebai ac yn fframio gwerth, cyrhaeddiad ac effaith ymarfer yr enwebai o safbwynt sefydliadol.

Ni ddylai'r Datganiad o Gefnogaeth gael ei weld yn ffynhonnell o dystiolaeth ategol (neu newydd); dylai agweddau craidd o Gais yr enwebai, a'r dystiolaeth ar gyfer yr agweddau hyn, gael eu darparu o fewn Adran B y Cais. Mae Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad yn ddogfen atodol a'i hunig bwrpas yw cymeradwyo'r hyn a nodir o fewn Adran B.

Cynghorwn fod y Datganiad o Gefnogaeth sefydliadol yn cael ei ysgrifennu gan gydweithiwr mewn swydd uwch yn y sefydliad enwebu (ar lefel Dirprwy Is-Ganghellor/Cyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol, neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r enwebai. Dylai'r datganiad ddilysu'r effaith a dystir gan yr enwebai, darparu cyd-destun sefydliadol ar gyfer gwaith yr enwebai, a darparu unrhyw wybodaeth ategol a allai gael ei mynegi'n fwy priodol gan uwch gydweithiwr sy'n gweithio mewn rôl uwch ac sy'n gyfarwydd ag ymarfer yr enwebai, er enghraifft, persbectif ar bwysigrwydd strategol gwaith yr enwebai a/neu'r newid sy'n deillio o ganlyniad i'w weithredoedd.

Mae'r gofyniad yn parhau i Is-Ganghellor/Prifathro/Llywydd (neu rywun cyfatebol) ddarparu'r gymeradwyaeth derfynol ar gyfer Datganiad o Gefnogaeth i gadarnhau cymeradwyaeth sefydliadol ffurfiol ar gyfer yr enwebiad.

Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth (Atodiad 2) gael ei gwblhau trwy ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael i AGRhA trwy grŵp 'Rhwydwaith Cysylltu Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (AGRhA)' ar blatfform preifat Cysylltu AU Ymlaen. Argymhellir bod Cais yr enwebai yn cael ei ddarllen cyn bod uwch gydweithiwr yn llunio Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad oherwydd mae cael y datganiad hwn i gyfateb yn dda â'r Cais yn ddefnyddiol iawn. Yn arbennig, dylai'r datganiad:

+ gymeradwyo dilysrwydd Cais yr enwebai ar gyfer effaith ragorol.
+ darparu'r cyd-destun sefydliadol lle gwelwyd effaith ragorol yr enwebai ac amlinellu unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i ledaenu ei ymarfer ymhellach.
+ darparu cadarnhad o gefnogaeth sefydliadol ar gyfer yr enwebai, os yw'n llwyddiannus, o ran ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag ennill Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol.
+ darparu unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol a allai gael ei mynegi'n fwyaf priodol gan gydweithiwr sy'n gweithio mewn rôl uwch (e.e. ar lefel Dirprwy Is-Ganghellor/Cyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol, neu rywun cyfatebol).
+ cael ei gymeradwyo gan yr Is-Ganghellor/Prifathro/Llywydd (neu rywun cyfatebol) i ffurfioli'r enwebiad a darparu enw, teitl swydd a llofnod yr Is-Ganghellor/Prifathro/Llywydd (neu rywun cyfatebol).

# 7. Y broses adolygu a dewis

Caiff pob enwebiad ei ystyried gan adolygwyr cyfoedion annibynnol, allanol yn seiliedig ar y wybodaeth y mae'r enwebeion yn eu cyflwyno yn erbyn y tri maen prawf yn Adran B y Cais.

Mae adolygwyr cyfoedion AU Ymlaen ar gyfer CCAC yn wirfoddolwyr sy'n gweithio ym maes addysgu a dysgu ar draws y sector AU ac yn annibynnol ar AU Ymlaen. Mae'r adolygwyr i gyd yn brofiadol ym maes asesu yn seiliedig ar feini prawf, byddant wedi cwblhau'n llwyddiannus ymarfer cymedroli ac wedi cael hyfforddiant cyn gweithredu fel adolygwr ar gyfer y cynllun. Bydd adolygwyr yn cyflawni eu rôl yn gyfrinachol ac ni chaiff eu hunaniaeth ei rannu ag enwebeion, sefydliadau enwebu neu gyda Phanel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn ystod y broses dewis a dyfarnu.

Bydd adolygwyr yn rhoi sgôr ar gyfer pob rhan o Adran B Cais yr enwebai yn erbyn pob un o'r tri maen prawf yn ei dro, gan sicrhau bod pob maen prawf yn cael yr un pwysiad yn y broses asesu. Mae terfynau geiriau caeth yn cael eu gosod ar gyfer y Cais a gofynnir i adolygwyr beidio ag ystyried unrhyw ran o Adran B y Cais sy'n fwy nag uchafswm nifer y geiriau a ganiateir, sef 1500 o eiriau fesul maen prawf (1-3). Defnyddir y cyfarwyddyd sgorio (Atodiad 3) gan yr adolygwyr i roi sgôr.

Yn 2026, bydd AU Ymlaen yn penodi tri adolygwr ar gyfer pob enwebiad, gan osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Mae adolygwyr yn rhoi sgôr 0-9 ar gyfer pob un o'r tri maen prawf gydag uchafswm sgôr posibl o 27. Defnyddir cyfres o algorithmau er mwyn gwahaniaethu sgorau a phennu gradd derfynol. Os yw sgorau un adolygwr wedi eu diffinio fel rhai sy'n anghyson â sgorau'r ddau adolygwr arall, defnyddir pedwerydd adolygwr, a defnyddir y tair sgôr agosaf i gyfrifo'r radd.

Bydd pob adolygwr yn asesu pob Cais yn annibynnol a heb ymgynghori ag eraill.

Mae AU Ymlaen yn goruchwylio'r broses adolygu gan gyfoedion ac mae'n monitro ac yn prosesu holl ddata enwebeion er mwyn adrodd i Banel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU. Mae'r dull a ddefnyddir yn sicrhau nad yw unrhyw enwebai o dan anfantais oherwydd anghysondebau wrth farcio, a bod pob enwebai yn cael ei drin yn deg ac yn gyson.

Mae AU Ymlaen wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Wrth brosesu enwebiadau, mae'n sicrhau nad yw unrhyw enwebai yn cael ei drin yn llai ffafriol nag eraill ar sail rhyw, hil, cenedligrwydd, tras ethnig neu genedlaethol, credoau crefyddol neu wleidyddol, anabledd, statws priodasol, cefndir cymdeithasol, amgylchiadau teuluol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, euogfarnau wedi eu disbyddu, oedran, neu am unrhyw reswm anghyfreithlon arall.

Mae Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn adolygu data monitro cyfle cyfartal di-enw, y graddau a sylwadau'r adolygwyr ac yn gwneud argymhellion ar gyfer yr ymgeiswyr buddugol, sy'n cael eu cadarnhau wedi hynny gan Grŵp Prif Weithredwyr AU Ymlaen.

# 8. Digwyddiadau cymorth Cymdeithas Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol

Yn ogystal â'r canllawiau a gyflwynir o fewn y ddogfen hon, mae aelodau o Gymdeithas Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol yn cynnal cyfres o weithdai cymorth ar-lein ar gyfer unigolion sy'n paratoi i gael eu henwebu. Mae cynrychiolwyr blaenorol wedi dweud bod y digwyddiadau hyn wedi rhoi cymorth amhrisiadwy iddynt gydag ysgrifennu eu Cais.

Mae digwyddiadau cymorth y Gymdeithas yn rhad ac am ddim i ddarpar enwebeion eu mynychu. Caiff dolenni cadw lle eu hanfon at AGRhA ac maent yn gyfrifol am hyrwyddo'r digwyddiadau ymysg cydweithwyr.

# 9. Canlyniadau a chyhoeddusrwydd

Caiff pob enwebai a'u AGRhA wybod canlyniad ei enwebiad trwy'r ebost yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun 29 Mehefin 2026. Bydd Is-ganghellor/Prifathro/Llywydd (neu rywun cyfatebol) pob sefydliad sy'n enwebu hefyd yn cael gwybod ar y dyddiad hwnnw a fu ei enwebeion yn llwyddiannus.

Bydd cyhoeddi enwau enillwyr CCAC 2026 **dan embargo tan ddydd Iau 6 Awst 2026**. Tra eu bod dan embargo, caniateir i enwebeion llwyddiannus a'u AGRhA ddatgelu newyddion am eu llwyddiant i aelodau o dîm marchnata a chyfathrebu eu Darparwr Addysg Uwch at ddibenion cynllunio; yna mae'n rhaid i'r cydweithwyr hyn hefyd gadw at amodau'r embargo. Dylid cyfeirio pob ymholiad ynglŷn â chynlluniau ar gyfer y diwrnod cyhoeddi at communications@advance-he.ac.uk.

Un o amodau cystadleuaeth CCAC yw nad yw enillwyr gwobrau, a'u sefydliadau enwebu, yn rhannu newyddion am eu llwyddiant cyn y dyddiad hwnnw er mwyn sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf posibl. Gallai gweithredu'n groes i'r gofyniad hwn arwain at dynnu'r wobr yn ôl. Caiff enwau enillwyr gwobrau CCAC 2026 eu cyhoeddi'n swyddogol ar ddydd Iau 6 Awst 2026 ar wefan AU Ymlaen ac mewn datganiad i'r wasg. Mae croeso i sefydliadau gyhoeddi a dathlu eu henillwyr **o 08:00 (BST) ar ddydd Iau 6 Awst 2026.**

Bydd pob CAC llwyddiannus yn derbyn **bathodyn CAC digidol rhyngweithiol** ar, neu'n fuan ar ôl, dyddiad swyddogol cyhoeddi'r canlyniadau. Gellir lawrlwytho'r bathodyn rhyngweithiol a'i rannu neu ei ychwanegu at lofnod ebost. Mae'n cynnwys gwybodaeth am feini prawf CCAC ac yn arddangos tystysgrif ar-lein CAC. Gweler yr enghraifft isod:



Mae CCAC yn gystadleuaeth ac felly mae penderfyniad y Panel yn derfynol; ni ellir gwneud unrhyw apeliadau yn erbyn ei benderfyniad. Dylai proses gwyno AU Ymlaen gael ei dilyn i roi sylw i unrhyw bryderon yn ymwneud â thriniaeth deg wrth weinyddu'r enwebiadau. Yn y lle cyntaf, os yw unrhyw gwestiynau neu bryderon yn codi, ebostiwch ntfs@advance-he.ac.uk.

## 9.1 Gwybodaeth am Gyhoeddusrwydd a Ffotograffau

Bydd tîm Marchnata a Chyfathrebu AU Ymlaen yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan enillwyr CCAC newydd ar ôl i'r canlyniadau unigol gael eu cyfathrebu (gweler uchod, yr wythnos yn dechrau 29 Mehefin 2026). Defnyddir y wybodaeth hon ar wefan AU Ymlaen ac yn llyfryn y seremoni. Rhaid cyflwyno gwybodaeth a ffotograffau i Dîm Cyfathrebu AU Ymlaen (communications@advance-he.ac.uk), trwy ffurflen ar-lein (dolen i'w darparu i'r enillwyr) erbyn **13 Gorffennaf 2026**.

**Gwybodaeth am yr enwebai:**

+ Proffil personol (hir): proffil personol 350 o eiriau wedi ei ysgrifennu yn y trydydd person (ef/hi) h.y. 'Mae Dawn Pendragon yn gweithio ym Mhrifysgol Heworth'. i gynnwys:
    - Cefndir cryno, gydag uchafbwyntiau gyrfa'r CAC, sy'n esbonio'r effaith a gafodd ar ganlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu.
    - Gwybodaeth benodol am faes pedagogaidd/datblygiad/gweithgarwch arbennig y CAC.
    - Llwyddiannau personol y mae'r CAC yn fwyaf balch ohonynt. Mae enghreifftiau o broffiliau blaenorol i'w gweld ar wefan AU Ymlaen i'w cyfeirio atynt;
+ Proffil personol (byr): crynodeb 50 o eiriau o broffil personol, wedi ei ysgrifennu yn y trydydd person.
+ Cysylltau cyfryngau cymdeithasol e.e. proffil LinkedIn, Bluesky Handle ac ati (fel y bo'n briodol).

**Ffotograff:**

+ Gofynion ar gyfer ffotograffau:
    - Un ffotograff eglur iawn 1Mb a 300dpi (o leiaf) (sylwer, gellir gwneud hyn ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar a chamerâu nad ydynt yn rhai proffesiynol).
    - Ffotograff wedi ei gyflwyno mewn fformat JPEG a fformat tirlun.
    - Dylai ffotograffau fod o'r enwebai llwyddiannus yn unig.

Sylwch, wrth gyflwyno delwedd i AU Ymlaen, bod unigolion yn rhoi caniatâd i AU Ymlaen ddefnyddio'r ddelwedd hon at ddibenion hyrwyddo neu gyhoeddusrwydd a hefyd yn cadarnhau mai nhw yw perchennog unrhyw hawliau eiddo deallusol neu fod ganddynt

drwydded briodol i rannu'r ddelwedd hon ag AU Ymlaen ac i AU Ymlaen ddefnyddio'r ddelwedd a ddarparwyd at y diben hwn.

Os na dderbynnir gwybodaeth am yr enwebai a ffotograff cyn y dyddiad cau, bydd proffil yr enillydd yn dangos ei enw a'r sefydliad yn unig. Ni allwn warantu y bydd gwybodaeth a delweddau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau (13 Gorffennaf 2026) yn cael eu golygu a'u lanlwytho mewn pryd ar gyfer y cyhoeddiad swyddogol.

## 9.2 Adborth ysgrifenedig

Yn dilyn cyhoeddi canlyniad CCAC 2026, bydd AU Ymlaen yn rhoi adborth ysgrifenedig unigol i'r holl enwebeion a'u AGRhA erbyn diwedd Awst 2026. Mae'r amserlen hon yn ofynnol oherwydd y nifer fawr o enwebiadau CAC a dderbynnir, a'r gwaith sylweddol y mae angen ei wneud i wirio a choladu'r adborth ysgrifenedig gan bob un o'r tri adolygwr yn erbyn tri maen prawf CAC. Dylai'r adborth ansoddol hwn gan yr adolygwyr gefnogi cynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Nid yw sgorau adolygwyr a graddau enwebeion yn cael eu rhyddhau.

# 10. Seremoni wobrwyo a digwyddiad briffio

Caiff gwobrau CCAC 2026 eu cyflwyno mewn cinio dathlu a chaiff enwebeion llwyddiannus, eu gwestai personol, a'u His-Ganghellor/Prifathro/Llywydd (neu rywun cyfatebol) eu gwahodd i'r cinio. Caiff y seremoni mewn person ei chynnal yn hydref 2026 (dyddiad i'w gadarnhau).

# Atodiad 1: Ffurflen Gais Enwebai CCAC 2026

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Sefydliad:** | |
| **Adran A: Datganiad cyd-destun (heb ei sgorio gan yr adolygwyr)**<br>I'w gwblhau yn y person cyntaf (h.y. defnyddiwch 'Rwyf') | |
| | |
| Nifer y geiriau Adran A<br>(uchafswm 300 o eiriau) | *Rhowch nifer y geiriau ar gyfer Adran A yma:* |
| **Adran B: Cais yn erbyn Meini Prawf CCAC**<br>**(tystiolaeth yn erbyn pob Maen Prawf 1-3 wedi ei sgorio ar wahân gan yr adolygwyr)** | |
| **Maen Prawf 1: Rhagoriaeth unigol**<br>Tystiolaeth o wella a thrawsffurfio canlyniadau myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan ddangos effaith sy'n gymesur â chyd-destun yr unigolyn a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig. | |
| | |
| Nifer y geiriau ar gyfer tystiolaeth yn erbyn Maen Prawf 1 (uchafswm 1500 o eiriau) | *Geiriau wedi eu cynnwys yn y ffigurau:*<br>*Geiriau wedi eu cynnwys ym mhrif gorff y testun:*<br>*Cyfanswm nifer y geiriau:* |
| **Maen Prawf 2: Codi proffil rhagoriaeth**<br>Tystiolaeth o gefnogi cydweithwyr a dylanwadu ar gefnogaeth ar gyfer dysgu myfyrwyr a/neu'r proffesiwn addysgu, gan gynnwys dangos effaith ac ymgysylltiad y tu hwnt i rôl academaidd neu broffesiynol arferol yr enwebai. | |
| | |

<table>
<tr><td>Nifer y geiriau ar gyfer tystiolaeth yn erbyn Maen Prawf 2 (uchafswm 1500 o eiriau)</td><td>Geiriau wedi eu cynnwys yn y ffigurau:<br>Geiriau wedi eu cynnwys ym mhrif gorff y testun:<br>Cyfanswm nifer y geiriau:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Maen Prawf 3: Datblygu rhagoriaeth<br><br>Dangos ymrwymiad yr enwebai at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'i effaith o ran addysgu a dysgu a/neu gefnogi dysgu.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Nifer y geiriau ar gyfer tystiolaeth yn erbyn Maen Prawf 3 (uchafswm 1500 o eiriau)</td><td>Geiriau wedi eu cynnwys yn y ffigurau:<br>Geiriau wedi eu cynnwys ym mhrif gorff y testun:<br>Cyfanswm nifer y geiriau:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Adran C: Rhestr Gyfeiriadau (heb ei sgorio gan yr adolygwyr)</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Llofnod yr enwebai*:<br><br>(Mae enw wedi ei deipio yn dderbyniol)</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Drwy gyflwyno'r ddogfen hon, cadarnhaf fel a ganlyn:<ul><li>Nid wyf yn AGRhA nac yn Ddirprwy AGRhA neu'n Arweinydd Tîm nac yn Ddirprwy Arweinydd Tîm ar gyfer enwebiad GCRhA 2026.</li><li>Rwyf wedi darllen, rwy'n deall ac yn cytuno â Datganiad Preifatrwydd AU Ymlaen.</li><li>Cytunaf y gall AGRhA ar gyfer fy sefydliad gwblhau fy enwebiad ar-lein, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.</li><li>Fy ngwaith i yn unig yw'r Cais hwn.</li></ul></td></tr>
</table>

# Atodiad 2: Ffurflen Datganiad o Gefnogaeth

Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth hwn gael ei **gwblhau** gan gydweithiwr mewn rôl uwch (Dirprwy Is-Ganghellor/Cyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol, neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r enwebai, a'i **lofnodi** gan Is-Ganghellor/Prifathro/Llywydd y sefydliad (neu rywun cyfatebol). Mae'n bosib bod Cais yr enwebai yn cael ei ddarllen cyn llunio'r datganiad hwn oherwydd mae Datganiad o Gefnogaeth sy'n gyfateb yn dda â'r Cais yn ddefnyddiol iawn.

| | |
|---|---|
| Enw'r person sy'n ysgrifennu'r Datganiad o Gefnogaeth Sefydliadol: | |
| Swydd: | |
| Manylion cysylltu (cyfeiriad gwaith, ebost a ffôn): | |
| Enw'r enwebai CCAC: | |

**Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth hwn:**

- gymeradwyo dilysrwydd Cais yr enwebai ar gyfer effaith ragorol.
- darparu'r cyd-destun sefydliadol lle gwelwyd effaith ragorol yr enwebai ac amlinellu unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i ledaenu ei ymarfer ymhellach.
- darparu unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol a allai gael ei mynegi'n fwyaf priodol gan gydweithiwr mewn rôl uwch (ar lefel Dirprwy Is-ganghellor/Cyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r enwebai.

*Rhowch y Datganiad o Gefnogaeth yma:*

| | |
|---|---|
| Nifer y geiriau (uchafswm 1000 o eiriau) | *Rhowch nifer y geiriau yma* |

**Cymeradwyaeth sefydliadol gan yr Is-Ganghellor (neu rywun cyfatebol)**

| | |
|---|---|
| Enw, swydd ac ebost cysylltu | |
| Llofnod electronig*<br>(*llofnod wedi ei sganio a heb ei deipio) | |
| Dyddiad: | |

Drwy lofnodi'r ddogfen hon, fel Is-Ganghellor neu rywun cyfatebol, cadarnhaf fel a ganlyn:

- Rwyf yn cymeradwyo'r enwebiad hwn ac yn cadarnhau bod y broses enwebu fewnol a arweiniodd at ddewis yr enwebai CCAC a enwir yn deg, yn dryloyw, ac wedi dilyn ein polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sefydliadol (neu'r cyfwerth).
- Rwyf wedi darllen, rwy'n deall ac yn cytuno â Datganiad Preifatrwydd AU Ymlaen.
- Gall AU Ymlaen ddefnyddio'r ffurflen hon i gadarnhau y bydd y sefydliad yn cefnogi'n llawn enillydd y wobr wrth gynnal unrhyw weithgareddau a'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â rôl Cymrawd Addysgu Cenedlaethol os yw'n llwyddiannus.

# Atodiad 3: Cyfarwyddyd sgorio CCAC 2026

Bydd adolygwyr yn defnyddio'r cyfarwyddyd sgorio isod i 'sgorio' pob un o dair rhan Adran B Cais yr enwebai yn erbyn pob un o dri maen prawf CCAC (h.y. uchafswm sgôr cyffredinol o 27 gan bob un o'r tri adolygwr).

| | 0 pwynt | 1-2 bwynt | 3-4 pwynt | 5-6 phwynt | 7-8 pwynt | 9 pwynt |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maen Prawf 1:** Rhagoriaeth unigol | Nid yw'r dystiolaeth yn berthnasol i ddangos bod canlyniadau myfyrwyr wedi gwella a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu. | Tystiolaeth rannol i ddangos bod canlyniadau myfyrwyr wedi gwella a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu. | Peth dystiolaeth i ddangos bod canlyniadau myfyrwyr wedi gwella a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu. | Tystiolaeth dda, gyda pheth dystiolaeth dda iawn, i ddangos bod canlyniadau myfyrwyr wedi gwella a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu. | Tystiolaeth dda iawn, gyda pheth dystiolaeth ragorol, i ddangos bod canlyniadau myfyrwyr wedi gwella a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu. | Tystiolaeth eithriadol i ddangos bod yr enwebai wedi cael effaith drawsnewidiol ar ganlyniadau myfyrwyr a/neu effaith gadarnhaol ar y proffesiwn addysgu. |
| **Maen Prawf 2:** Codi proffil rhagoriaeth | Nid yw'r dystiolaeth yn uniongyrchol gysylltiedig â dylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, NEU ddylanwadu ar gefnogaeth ar gyfer addysg myfyrwyr AU. | Tystiolaeth rannol o ddylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, gan gynnwys y tu hwnt i rôl yr enwebai<br>A/NEU<br>Tystiolaeth rannol o ddylanwad ar gefnogaeth ar gyfer addysg myfyrwyr AU. | Peth tystiolaeth dda o ddylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, gan gynnwys y tu hwnt i rôl yr enwebai<br>A/NEU<br>Peth tystiolaeth dda o ddylanwad ar gefnogaeth ar gyfer addysg myfyrwyr AU. | Tystiolaeth dda, gyda pheth tystiolaeth dda iawn, o ddylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, gan gynnwys y tu hwnt i rôl yr enwebai<br>A/NEU<br>Tystiolaeth dda, gyda pheth tystiolaeth dda iawn o ddylanwad ar gefnogaeth ar gyfer addysg myfyrwyr AU. | Tystiolaeth dda iawn, gyda pheth dystiolaeth ragorol, o ddylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, gan gynnwys y tu hwnt i rôl yr enwebai<br>A/NEU<br>Da iawn, gyda pheth tystiolaeth ragorol o ddylanwad ar gefnogaeth ar gyfer addysg myfyrwyr AU. | Tystiolaeth eithriadol o ddylanwad ar ddatblygiad ymarfer dysgu ac addysgu AU a/neu ymarferwyr, gan gynnwys y tu hwnt i rôl yr enwebai<br>A/NEU<br>Tystiolaeth eithriadol o ddylanwad ar gefnogaeth ar gyfer addysg myfyrwyr AU. |

| | 0 pwynt | 1-2 bwynt | 3-4 pwynt | 5-6 phwynt | 7-8 pwynt | 9 pwynt |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maen Prawf 3:** Datblygu rhagoriaeth | Nid yw'r dystiolaeth yn gysylltiedig ag ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi ei chael ar ei ymarferion dysgu ac addysgu ei hun neu ganlyniadau ar gyfer myfyrwyr neu ymarferion cyfoedion. | Tystiolaeth rannol o ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi ei chael ar ei ymarferion dysgu ac addysgu ei hun a chanlyniadau i fyfyrwyr a/neu ymarferion cyfoedion. | Peth tystiolaeth dda o ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi ei chael ar ei ymarferion dysgu ac addysgu ei hun a chanlyniadau ar gyfer myfyrwyr a/neu ymarferion cyfoedion. | Tystiolaeth dda, gyda pheth tystiolaeth dda iawn, o ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi ei chael ar ei ymarferion dysgu ac addysgu ei hun a chanlyniadau ar gyfer myfyrwyr a/neu ymarferion cyfoedion. | Tystiolaeth dda iawn, gyda pheth dystiolaeth ragorol, o ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi ei chael ar ei ymarferion dysgu ac addysgu ei hun a chanlyniadau ar gyfer myfyrwyr a/neu ymarferion cyfoedion. | Tystiolaeth eithriadol o ymrwymiad yr enwebai i ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r effaith y mae hyn wedi ei chael ar ei ymarferion dysgu ac addysgu ei hun a chanlyniadau i fyfyrwyr a/neu ymarferion cyfoedion. |

AU Ymlaen
AdvanceHE

## Cysylltu â ni

ntfs@advance-he.ac.uk
www.advance-he.ac.uk
@AdvanceHE

© 2026 AU Ymlaen. Cedwir pob hawl.

Barn yr awdur a fynegir yn y cyhoeddiad hwn ac nid o reidrwydd barn AU Ymlaen. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio, neu unrhyw system storio ac adalw heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint. Rhoddir caniatâd o'r fath fel arfer at ddibenion anfasnachol, addysgol ar yr amod y rhoddir cydnabyddiaeth briodol.

I wneud cais am gopïau o'r adroddiad hwn mewn print bras neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Tîm Marchnata a Chyfathrebu yn AU Ymlaen yn communications@advance-he.ac.uk

Mae AU Ymlaen yn gwmni cyfyngedig trwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr rhif 04931031. Cofrestrwyd fel elusen yng Nghymru a Lloegr rhif 1101607. Cofrestrwyd fel elusen yn yr Alban rhif SC043946. Ni ellir defnyddio geiriau na logo AU Ymlaen heb ein caniatâd. Rhif cofrestredig TAW GB 152 1219 50.